Social Farms & Gardens

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

ffeithiau

# Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Rheoli Rhestrau Aros

## Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn un o gyfres sy'n rhoi mwy o fanylion ar y pynciau amrywiol sy'n rhan o'r Cyfarwyddyd.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:
**www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Rheoli Rhestrau Aros

Yn 2010, er mwyn helpu awdurdodau lleol a chymdeithasau rhandiroedd ymdopi gyda rhestrau aros cynyddol ar gyfer rhandiroedd ar draws y DU, cyhoeddwyd A Place to Grow, gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, fel diweddariad i'r canllawiau arfer dda o ran rheoli rhandiroedd, Growing in the Community (gweler Adnoddau). Nod penodol A Place to Grow oedd adnabod ffyrdd i leihau'r amser aros i bobl sydd am rentu rhandir.

Gall rheoli'r rhestrau aros mewn ffordd weithgar chwarae rhan bwysig o safbwynt gwneud y defnydd gorau posib o'r portffolio o randiroedd sydd ar gael, a sicrhau sylfaen dibynadwy wrth amcangyfrif y galw ar gyfer darpariaeth ychwanegol. Mae'r daflen ffeithiau hon yn datblygu'r canllawiau ar restrau aros sy'n rhan o A Place to Grow, trwy ddelio gyda'r pwnc mewn ffordd fwy manwl a dangos arferion da trwy esiamplau ymarferol.

Lluniwyd y daflen ffeithiau o safbwynt swyddog rhandiroedd awdurdodau lleol, ond mae'r egwyddor yn berthnasol i bob safle dan reolaeth ddatganoledig. Os caiff cyfrifoldeb am reoli rhestrau aros ei ddatganoli i gymdeithasau, dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y rhestr ei rheoli trwy ddilyn yr un rheolau â safleoedd sy'n cael eu gosod yn uniongyrchol, oni fydd cytundeb i'r gwrthwyneb, a dylid cadw'r hawl i archwilio rhestrau aros a chofnodion tenantiaeth ddiweddar i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

## Cyntaf i'r Felin?

Fel arfer, mae rhestrau aros ar gyfer rhandiroedd yn gweithio ar y sail y cynigir rhandiroedd sy'n dod yn wag i'r unigolion sydd wedi treulio'r amser hiraf ar y rhestr aros. Yn ei hanfod, mae'r rheol hon yn deg ac yn hawdd ei deall, ac ni ddylid ei thorri heb achos da.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gellir cyfiawnhau trefn arall. Er enghraifft, os ydy deiliad rhandir presennol sydd mewn cyflwr da, y mae ei amgylchiadau wedi newid heb unrhyw fai arno/arni ei hun mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn anodd parhau â'r denantiaeth, ac sy'n cytuno ildio'r rhandir ar sail wirfoddol tra bydd dal mewn cyflwr da er mwyn i rywun ar y rhestr aros gael cyfle i arddio. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir gwneud eithriad i wobrwyo deiliad y rhandir am ymddwyn felly trwy roi hawl iddo/iddi fynd i ben y rhestr amser pan fydd ei amgylchiadau personol yn newid eto er gwell.

Hefyd gall fod amgylchiadau lle mae pobl nad ydynt ar restr aros (neu ar ben y rhestr) yn hawlio fod ganddynt uwch hawl i denantiaeth benodol. Hwyrach y bydd aelodau teuluoedd sydd wedi rhannu'r gwaith o drin rhandir, ac sydd yn ei ystyried fel rhywbeth i'w drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf (neu rhwng gŵr a gwraig neu bartneriaid), yn ystyried y byddant yn etifeddu'r tenantiaeth pan fydd deiliad presennol y rhandir yn marw. Er hynny, does dim sail gyfreithiol ar gyfer y fath hawl. Os bydd teulu am gadw rhandir sy'n bwysig iddyn nhw, y gweithdrefnau priodol fyddai i'r darpar olynydd ymuno â'r rhestr aros, ac ar ôl cyrraedd pen y rhestr, aros gyda chaniatâd yr awdurdod lleol nes daw'r llain dan sylw'n wag eto.

Hefyd gall cais gan unigolyn ar y rhestr aros ar gyfer llain benodol fod yn briodol os bydd lleoliad neu fynediad at y llain yn diwallu anghenion personol (mynediad â cherbyd i rywun sydd ag anabledd), neu os bydd dau ffrind wedi rhannu llain trwy gytuno rhyngddynt, ond un ohonynt yn unig yw'r tenant cyfreithiol.

Gan ystyried hyd restrau aros, byddai'n ddoeth i awdurdodau lleol dwyn sylw tenantiaid at y materion hyn ym maes etifeddu cyn gynted â phosib, er mwyn lleihau cymaint â phosib nifer y teuluoedd a ffrindiau sy'n colli mynediad at lain dan amgylchiadau poenus yn ddiweddarach. Dylid creu cofrestr er mwyn cadw cofnod o 'fydis' neu 'ranwyr' cofrestredig deiliaid lleiniau presennol sy'n gymwys i ysgwyddo'r denantiaeth pan fydd y deiliad presennol yn ei ildio, a dylid sicrhau fod hyn mor gadarn â phosib trwy atgoffa tenantiaid o dro i dro (e.e.

### Astudiaeth achos: 'Polisi Etifeddiant' Cyngor North Tyneside

Mae Cyngor North Tyneside wedi llunio 'Polisi Etifeddiant' er mwyn sicrhau dull teg a rheoladwy mewn perthynas â rhannu lleiniau.

Derbyniodd pob tenant ar safleoedd gosod uniongyrchol lythyr atodol gyda'r bil blynyddol am y llain yn egluro'r canlynol:

- Bod yn rhaid i denantiaid hysbysu'r cyngor am unrhyw unigolion sy'n cydweithio gyda nhw ar y llain, gan gynnwys aelodau teulu;
- Yn achos marwolaeth deiliad y llain, dyma'r unig wybodaeth y bydd y cyngor yn ei defnyddio fel sail i benderfyniad mewn perthynas ag etifeddu'r rhandir.

Cafodd tenantiaid eu hatgoffa am y polisi hwn yng nghylchlythyr y gwasanaethau rhandiroedd, a dderbyniwyd gan bob tenant, a chafodd y polisi ei gynnwys mewn trefniadau gosod y dyfodol.

Bu'r cyngor yn gweithio gyda safleoedd datganoledig a reolir yn North Tyneside i fabwysiadu'r polisi hefyd, a buon yn gweithio gyda chymdeithas enghreifftiol i ddatblygu system hawdd i safleoedd datganoledig a reolir ei defnyddio.

trwy gylchlythyrau, neu nodiadau gydag anfonebau rhent) ynglŷn â'r rheolau o ran pasio lleiniau ymlaen.

Gall awdurdodau lleol hefyd ddewis strwythuro'r rhestr aros ar sail ardal ddaearyddol.  Does dim rhaid i awdurdodau lleol ddarparu lleiniau i bobl sy'n byw tu allan i'w ffiniau, er i lawer wneud hyn yn y gorffennol, pan nad oedd digon o alw am randiroedd yn yr ardal i sicrhau fod pob llain yn cael ei drin. Yn dibynnu ar lefel y galw, gall awdurdodau ddewis cau'r rhestr i bobl nad ydynt yn byw yn yr ardal, neu strwythuro'r rhestrau i roi blaenoriaeth i drigolion yr ardal.

Pan fydd galw mawr, hefyd gall awdurdodau lleol ddewis ystyried a oes gan rywun ar restr aros lain yn barod (ar yr un safle neu ar safle arall) a blaenoriaethu unigolion heb lain o gwbl yn lle creu sefyllfa lle mae gan unigolyn fwy nag un llain.

Gellir hefyd ystyried maint y llain dan sylw, yn enwedig pan gynigiwyd 'rhandiroedd cychwynnol' ar y ddealltwriaeth na fyddai derbyn tenantiaeth un o'r lleiniau hyn yn atal symud ymlaen at lain fwy ei maint yn ddiweddarach.

## "Am faint 'dwi'n gorfod aros?"

Dylai fod yn bosib gallu dweud wrth ymgeisydd lle mae ef/hi ar y rhestr ar hyn o bryd.

Er hynny, gellir lleihau'r amser y mae swyddog yn treulio ar ddelio gyda'r ymholiadau hyn, trwy sicrhau fod y rhestr aros ar gael yn gyhoeddus, yn amodol ar drefniadau diogelu data perthnasol. Un ffordd o wireddu hyn yw trwy ddyrannu rhif ffeil i ymgeiswyr ( a dim ond yr ymgeisydd a'r swyddfa rhandiroedd sy'n ymwybodol o'r rhifau hyn) er mwyn peidio cynnwys enwau ar restr sydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir rhestru'r rhif ffeil ochr yn ochr â dyddiad derbyn y cais, ac am y flwyddyn aeth heibio, y dyddiadau dynodi'r tenantiaethau newydd.

## Astudiaeth achos: Polisi Rhestr Aros Rhandiroedd Dinas Caerefrog

Roedd gan bob un o'r 16 o safleoedd o reolwyd yn uniongyrchol restr aros; ysgrifennydd gwirfoddol y safleoedd oedd yn eu cadw. Defnyddiwyd ffurflen safonol i gadw'r rhestrau – naill ai ar bapur neu'n electronig. Gofynnwyd i ysgrifenyddion y safleoedd anfon copïau o'u rhestrau at y Gweinyddwr Rhandiroedd ym mis Mawrth a Medi bob blwyddyn. Roedd gan yr unig safle oedd yn hunan-reoli ei restr aros ei hun, mewn ffurf debyg, ond roedd yn anfon cyfanswm y nifer ar y rhestr aros dwywaith y flwyddyn.

Ychwanegwyd ymgeiswyr newydd at waelod bob rhestr, a chynigiwyd lleiniau i ddarpar denantiaid wrth iddyn nhw gyrraedd brig y rhestr, yn nhrefn ymuno â'r rhestr aros.

Os byddai darpar denant yn cyrraedd brig y rhestr pan roedd ei amgylchiadau personol yn golygu nad oedd mewn sefyllfa i weithio'r llain, roedd yn cadw ei safle ar y rhestr, a byddai'n cysylltu ag ysgrifennydd y safle pan roedd yn gallu derbyn llain. Wedyn cynigiwyd y llain nesaf oedd ar gael iddo/iddo.

Os nad oedd tenant yn gallu trin y llain am gyfnod oherwydd amgylchiadau personol, megis babi newydd neu berthynas ddibynnol mewn oed, byddai'n gallu ildio'r llain, ac ymuno â'r rhestr aros eto. Ar ôl cyrraedd brig y rhestr, byddai'n gallu aros yno nes ei bod/fod mewn sefyllfa i allu derbyn llain eto.

Hefyd gellir amcangyfrif faint o ddeiliaid lleiniau newydd sy'n debygol o gael eu derbyn bob blwyddyn, ar sail nifer y tenantiaid sydd wedi ildio rhandiroedd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Gall ymgeiswyr fod yn rhwystredig oherwydd diffyg cynnydd tybiedig, yn enwedig pan fyddant o'r farn yn anghywir efallai, (sy'n cael ei ysgogi gan y cyfryngau) fod ganddynt hawl i lain adeg gwneud cais amdano, ac wrth weld lleiniau nad ydynt yn cael eu trin ar safleoedd.

Gellir delio gyda phryder mewn perthynas â pheidio eu trin trwy gyhoeddi polisi'r awdurdod lleol ar y mater, a dylai hyn egluro ei fod yn debygol y bydd lleiniau yn wag oherwydd bod y tenant presennol yn derbyn rhybudd i adael, neu mae tenant newydd ar fin cychwyn.

## Dibynadwyedd Rhestrau Aros

Er y bydd rhai ymgeiswyr yn benodol iawn am eu dewis safle, bydd eraill efallai'n hapus i dderbyn llain ar unrhyw safle, ac os cedwir rhestrau gwahanol, bydd eu henwau ar nifer o restrau. Os bydd ymgeisydd yn gobeithio cael mwy o dir na'r uchafswm sydd ar gael i denantiaid newydd, gellir cyflwyno ceisiadau lluosog gan aelodau gwahanol y teulu.

Yn y cyfamser, hwyrach y bydd pobl eraill ar y rhestr aros wedi symud i ffwrdd, neu wedi colli diddordeb mewn garddio rhandir, neu hwyrach bod eu hamgylchiadau'n golygu nad ydynt bellach yn gallu gwireddu eu huchelgais garddio.

Mae'r ffactorau hyn yn golygu fod rhestrau aros yn annibynadwy o'u hanfod, a gall hyn arwain at anawsterau:

- Gall y broses o ddyrannu llain sydd newydd ddod yn wag, gymryd amser, gan ystyried na fydd yr unigolyn sydd ar frig y rhestr ar hyn o bryd efallai'n fodlon neu'n gallu derbyn y cynnig, ac felly'n gwastraffu amser swyddogion ac yn ymestyn

y cyfnod o beidio trin y llain wrth ddisgwyl tenant newydd.

- Mae'r ddadl dros greu mwy o gapasiti trwy ychwanegu safleoedd newydd yn cael ei wanhau oherwydd nid yw'r ffigurau sy'n deillio o'r rhestrau aros, sy'n cyfateb i brif dystiolaeth i gefnogi'r achos dros adnoddau ychwanegol, yn ddigon cadarn. Mae'r broblem yn cael ei gwaethygu oherwydd does dim rhaid i safleoedd dan reolaeth ddatganoledig hysbysu'r awdurdod lleol am eu rhestrau aros.

Felly, mae unrhyw gamau i wella dibynadwyedd rhestrau aros i'w croesawu, mor bell nad ydynt yn golygu costau gormodol i'r awdurdod lleol.

Yn debyg i ddiffyg trin llain, gall y rhain gychwyn adeg cyflwyno cais i ymuno â'r rhestr yn y lle cyntaf, er enghraifft trwy ddarparu gwybodaeth i ddarpar denantiaid newydd ynghylch gofynion tebygol y llain o safbwynt amser ac ymdrech, ar y cyd â gwahoddiad i ymweld â safle i unigolion sydd heb unrhyw brofiad o randiroedd ond trwy'r cyfryngau.

Unwaith mae eu henw ar y rhestr, dylid annog ymgeiswyr i sicrhau fod eu cofnod yn gyfredol, a hwyrach y bydd gofyn hysbysu'r swyddfa rhandiroedd am unrhyw newid i'w cyfeiriad. Gellir defnyddio system adnewyddu flynyddol trwy ysgrifennu at gyfeiriad hysbys olaf yr ymgeisydd. Gall fod yn gyfle i roi adborth ar gynnydd y gwasanaeth rhandiroedd o ran lleihau amseroedd aros, a chynnwys gwybodaeth ar unrhyw gyfleoedd garddio amgen 'yn y cyfamser' sydd ar gael efallai tra bydd pobl yn aros am lain. Mae ffigurau o Fwrdeistref Bexley yn Llundain, sy'n rhedeg system adnewyddu flynyddol, yn awgrymu bod cyfradd o ryw 10% yn tynnu nôl (naill ai trwy dynnu nôl yn wirfoddol neu fethu ag adnewyddu trwy ddychwelyd y ffurflen).

## Astudiaeth achos:'Dewis amgen yn y cyfamser' yn Swydd Efrog

Mae ficerdy Eglwys San Pedr, Rawdon, Leeds gerllaw safle rhandiroedd statudol poblogaidd iawn, sef Rhandiroedd Victory Garden.

Er i bwyllgor y safle datganoledig a reolir caffael tir i greu tri deg o leiniau ychwanegol, cafodd y rhain eu rhentu allan ar unwaith, gan adael rhestr aros sylweddol. Ar ôl clywed am hyn, cynigiodd ficer Eglwys San Pedr defnydd dros dro o ardd y ficerdy i bobl ar y rhestr aros; a chynigiwyd lleiniau cychwynnol i bobl wrth aros am lain lawn draddodiadol ar safle Rhandiroedd Victory Garden.

Ni chafodd y lleiniau newydd eu 'paratoi' ymlaen llaw cyn i'r garddwyr newydd gyrraedd: rhoddwyd darn o'r lawnt neu wely blodau iddynt a gofynnwyd iddynt greu eu cynlluniau a gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Trefniadau anffurfiol sydd ganddynt: ni thalwyd unrhyw rent am y tir, ac ni luniwyd cytundeb ffurfiol.

Roedd yr ardd dros dro'n llwyddiant ysgubol' a defnyddiodd yr eglwys ei gyfleoedd rhwydweithio ei hun i rannu'r arfer dda gyda mannau addoli eraill yn y ddinas.

Os bydd rhestrau aros yn hir, bydd y cynnydd yn araf, ac yn golygu treulio llawer o amser ar ddelio gydag ymholiadau gan bobl ar y rhestr aros; y temtasiwn wedyn yw cau'r rhestr aros dros dro nes i'r enwau wrth gefn glirio - a gall hynny gymryd amser sylweddol. Y broblem gyda chau rhestrau yw y bydd yn arwain at alw cudd ond heb ei fesur, sy'n tanseilio cadernid y ffigurau crynswth ac felly'n golygu fod awdurdodau'n agored i gyhuddiadau eu bod yn ceisio osgoi eu dyletswydd i ddarparu digon o randiroedd. Felly, byddai'n well cadw'r rhestrau ar agor, ac ar yr un pryd gwella'r effeithlonrwydd o ran delio gydag ymholiadau gan bobl ar y rhestr, a lleihau pwysau'r ymholiadau trwy wneud y rhestrau a'r wybodaeth gysylltiedig ar gael i'r cyhoedd.

## Neidio'r Ciw

Os bydd rhestrau aros yn bodoli, felly hefyd y temtasiwn i'w hosgoi neu geisio neidio'r ciw. Dylai fod Swyddogion Rhandiroedd a Rheolwyr datganoledig yn ymwybodol o'r broblem hon, a dylid ymateb yn gadarn iddi, gyda chefnogaeth lawn yr awdurdod lleol. Ni ddylid caniatáu i ymgeiswyr sy'n ceisio symud i fyny'r rhestr yn gynt trwy fwlio, a dylai fod yn destun polisi'r awdurdod lleol mewn perthynas ag urddas yn y gwaith. Weithiau bydd ymgeiswyr yn ymddangos ar y safle ac yn bwlio cynrychiolwyr y safle a rheolwyr datganoledig. Dylid pwysleisio wrth yr unigolion hyn, er ichi wrando ar eu cwynion, ac y byddwch yn gweithredu arnynt os oes unrhyw gyfiawnhad (e.e. mewn perthynas â rheoli lleiniau nad ydynt yn cael eu trin), dyrennir unrhyw lain sy'n dod yn wag yn nhrefn y rhestr aros, felly nid oes unrhyw fantais i ymddwyn yn y fath ffordd.

Y dechneg osgoi fwyaf cyffredin yw rhannu llain, sy'n gallu bod yn ddiniwed (er enghraifft os bydd gwirfoddolwr yn cynnig helpu allan deiliad llain anabl gyda thasgau corfforol trwm) ond gall hefyd fod yn gyfrwng i sefydlu presenoldeb ar y safle, a chymryd is-denantiaeth anghyfreithlon pan fydd deiliad cyfreithiol y llain yn gadael (o ganlyniad i gael ei fwlio'n bosib iawn).

Mae'n anodd cadw llygaid ar yr arfer o rannu llain, yn enwedig ar safleoedd sy'n cael eu gosod yn uniongyrchol heb gynrychiolwyr ar y safle i gadw llygaid ar bwy sy'n trin

y lleiniau, a gwahaniaeth mân iawn sydd rhwng osgoi'r rhestr a helpu ffrind fel gweithred gymdeithasol. Er hynny, mae'n hanfodol fod pawb sy'n rhannu llain (a thenantiaid y tir sy'n cael ei rannu) yn ymwybodol nad oes gan unigolion sy'n rhannu rhandir unrhyw hawl i gymryd dros y denantiaeth ond trwy'r rhestr aros, a thaw deiliad y llain sy'n gyfrifol am ymddygiad unrhyw westeion ar y safle os caniateir y rhain, ac y byddant yn gofyn i unigolion sy'n rhannu rhandiroedd adael y safle os oes hawl mynediad gan ddeiliaid lleiniau yn unig.

Mae'n hanfodol i awdurdodau lleol gadw cofrestr gadarn o bobl sy'n rhannu lleiniau ac eraill sydd wedi mynegi diddordeb mewn llain benodol, y bydd ganddynt hawl i'w chymryd ar ôl cyrraedd brig y rhestr aros erbyn y dyddiad daw'r denantiaeth yn wag.

Hwyrach y bydd gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn dewis amgen 'yn y cyfamser' wrth ddisgwyl am lain wag, megis cymryd rhan mewn cynllun 'garddio cymunedol'. Hwyrach y bydd eraill yn fodlon garddio dros dro ar safle rhandiroedd llai cyfleus lle mae lleiniau gwag ar gael. Dylid annog y fath weithgareddau, ac i'r perwyl hwnnw, dylid caniatáu i bobl sy'n derbyn yr opsiynau hyn gadw eu safleoedd ar y rhestrau aros nes daw llain addas yn wag iddyn nhw. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn darganfod fod y gweithgareddau amgen hyn yn bleserus, wrth gwrs, ac yn yr achos hwnnw, hwyrach y byddan nhw'n tynnu eu henwau nôl o'r rhestr aros.

## Gwneud y cynnig

Mae'n bwysig fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau yn eu lle i gynnig lleiniau sydd newydd ddod yn wag i bobl ar y rhestr aros, sy'n golygu gwneud penderfyniadau cyflym ac yn lleihau cymaint â phosib yr amser y mae llain yn aros yn wag, ond sydd hefyd yn deg i ymgeiswyr.

Os tybir fod y llain dan sylw'n cydymffurfio â safonau trin y tir adeg ei gynnig, dylid ysgrifennu at yr unigolyn ar frig y rhestr aros i ofyn iddo/iddi wneud penderfyniad cyflym ynglŷn â derbyn y llain ai peidio, a hynny o fewn cyfnod ymateb rhesymol o un deg pedwar diwrnod.

Ar yr adeg yma, mae rhywfaint o risg o annhegwch, oherwydd os bydd yr unigolyn dan sylw oddi cartref (ar wyliau er enghraifft), ac mae'r risg yn gwaethygu os caiff y cyfnod derbyn ei dorri eto. Os nad yw'r awdurdod yn derbyn ymateb o fewn y cyfnod a bennwyd, byddai'n briodol cynnig y llain i'r unigolyn nesaf ar y rhestr, gan adael yr ymgeisydd sydd heb ymateb ar frig y rhestr erbyn pan ddaw'r llain nesaf yn wag, mor bell ag y derbynnir eglurhad boddhaol mewn perthynas â pheidio ymateb.

Os bydd ymgeisydd yn penderfynu peidio derbyn tenantiaeth ar lain sydd mewn cyflwr trin da, gall hyn fod oherwydd anhawster dros dro yn hytrach nag anffuantrwydd, felly mae'n bwysig gofyn am eglurhad, ac os bydd yr eglurhad yn foddhaol, er mwyn diogelu lle'r ymgeisydd ar y rhestr aros trwy ei wahodd i gysylltu pan fydd amgylchiadau'n golygu y gall ail-afael yn ei gais ar gyfer llain, ac ar y pryd hwnnw bydd yn gymwys i gael y llain nesaf sydd ar gael.

Os tybir nad yw'r llain sydd newydd ddod yn wag mewn cyflwr addas i'w thrin, gall fod yn briodol caniatáu i ymgeiswyr ei gwrthod heb eu cosbi, neu os bydd yn ei derbyn, i gytuno amodau hael o safbwynt y lefelau trin disgwyliedig ymhen tri a deuddeg mis ar sail asesiad realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni wrth ystyried cyflwr cychwynnol y llain.

Os na dderbynnir ymateb i gynnig o lain, neu os gwrthodir y cynnig heb reswm da, fodd bynnag, byddai'n briodol tynnu enw'r ymgeisydd oddi ar y rhestr aros, nes bydd yn ail-ymgeisio.

Gellir cyflymu'r broses cynnig trwy ddefnyddio'r ffôn ac ebost. Gofalwch fodd bynnag, i sicrhau nad yw natur uniongyrchol y dulliau cyfathrebu hyn yn diystyru'r angen i ymgeiswyr gael cyfle teg o safbwynt cysylltu â nhw ac i ystyried eu hymateb, er mwyn peidio rhoi pwysau arnynt i dderbyn tenantiaeth nad oes gobaith rhesymol o fodloni ei hamodau.

## Adnoddau

### Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (SF&G)

**Ffôn:** 0117 9231800
**Ebost:** admin@farmgarden.org.uk
**Wefan:** www.farmgarden.org.uk

Elusen gofrestredig sy'n cefnogi, yn cynrychioli ac yn hyrwyddo ffermydd, gerddi cymunedol, ffermydd gofal, rhandiroedd a mannau gwyrdd eraill a reolir gan y gymuned, er mwyn i gymunedau lleol dyfu. Cynllun yswiriant gyda disgownt i aelodau.

### Cymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd a Gerddi Pleser (NSALG)

**Ffôn.** 01536 266 576
**Ebost:** natsoc@nsalg.org.uk
**Wefan:** www.nsalg.org.uk

Corff cenedlaethol sy'n cynrychioli rhandiroedd yn y DU

### Growing in the Community – A good practice guide for the management of allotments 2008 (2nd Edition)

**Gellir ei lawrlwytho am ddim:** www.local.gov.uk/growing-community-second-edition

### A Place to Grow, 2010

Dogfen atodol i Growing in the Community (uchod) – ei nod yw adnabod ffyrdd i leihau'r amser aros i bobl wrth ddisgwyl am randir.
**Gellir ei lawrlwytho am ddim:** www.local.gov.uk/place-grow-supplementary-document-growing-community

Cynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Ionawr 2021
Mae’r daflen ffeithiau hon yn cynnwys deunydd a gyhoeddwyd gyntaf gan y Fenter Adfywiohandiroedd (ARI) 2010

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

**Ffon:** 02920 225 942 /**Ebost:** wales@farmgarden.org.uk
**Website:** www.farmgarden.org.uk